

Cawl Plastig

Nodiadau Briffio Cynnig Rhestr Fer



Shutterstock

Diweddarwyd y nodiadau 10 Mawrth 2017

Cawl Plastig: cadwch ffibrau microplastig allan o'n moroedd

Caiff ffibrau microplastig eu colli o ddillad synthetig bob tro y cânt eu golchi a hwy sy'n bennaf gyfrifol am halogiad microplastig yn ein moroedd. Mae FfCSyM yn galw ar y Llywodraeth a byd diwydiant i ymchwilio i a datblygu atebion arloesol i'r broblem hon er mwyn atal ffibrau microplastig rhag cronni yn ein moroedd.

Safbwynt y cynigydd.


Mae'r cynigydd yn pryderu am faint o ffibrau microplastig sy'n mynd i'n moroedd a'r effaith mae hyn yn ei chael ar fywyd dyfrol. Ffibrau microplastig yw 85% o'r deunyddiau o waith dyn ar y draethlin ac mae'r cynigydd yn credu bod gan SyM ran bwysig i'w chwarae wrth godi ymwybyddiaeth. Mae eisiau i SyM ddefnyddio ei ddylanwad i annog y llywodraeth i gefnogi ac ariannu gwaith ymchwil a datblygu i ffyrdd o drin dŵr a chynhyrchu tecstilau ac i gyfarpar a phrosesau ailgylchu, yn ogystal â darbwyllo gwneuthurwyr peiriannau golchi i gyflwyno hidlyddion i leihau nifer y ffibrau microplastig sy'n mynd i'r moroedd.

Beth yw ffibrau microplastig?

Mae Gweinyddiaeth Genedlaethol y Cefnforoedd a'r Atmosffer yn diffinio microplastigau fel darnau o blastig 5mm neu lai. Mae ffibrau microplastig yn cael eu colli o ddillad synthetig a dillad o waith dyn wrth iddynt gael eu golchi, ac yn mynd i'r môr a'r amgylchedd ehangach. Amcangyfrifodd adroddiad gan yr ecolegydd Mark Browne y gall oddeutu 1,900 o fficroffibrau unigol gael eu golchi oddi ar un dilledyn synthetig, ac mai ffibrau microplastig yw oddeutu 85% o'r deunyddiau o waith dyn a geir ar y draethlin. Dangosodd astudiaeth ddiweddarach gan Brifysgol Plymouth fod deunyddiau synthetig gwahanol yn colli niferoedd gwahanol o ffibrau. Roedd hyn yn amrywio o 140,000 o ffibrau ym mhob llwyth peiriant golchi yn achos ffabrig polyester a chotwm, i 730,000 o ffibrau yn achos ffabrig acrylig. Canfu'r un astudiaeth fod y math o lanedydd a defnyddiwyd, ac a ddefnyddiwyd cyflyrydd ffabrig ai peidio, hefyd yn cael effaith ar nifer y ffibrau a gollwyd. Mae'n ddyddiau cynnar ar y gwaith ymchwil i ffibrau microplastig, sut y cânt eu rhyddhau a lle a sut y maent yn cronni. Mewn ymchwiliad i lygredd microplastigau, cydnabu Pwyllgor Dethol Archwilio Amgylcheddol Senedd y DU y mater hwn, ac argymhellodd y dylai'r llywodraeth geisio llunio polisi ar ymchwilio i a lliniaru effeithiau ffibrau microplastig yn fuan.

Pam mae microffibrau yn broblem?

Oherwydd eu maint bach mae'n hawdd i ffibrau microplastig gael eu llyncu gan fywyd dyfrol a, chan eu bod yn biogronni trwy'r gadwyn fwyd, maent yn crynhoi gwenwynau yng nghyffwrdd anifeiliaid mwy. Canfu astudiaeth ddiweddar a edrychodd ar bysgod a werthwyd mewn marchnadoedd yng Nghalifornia ac Indonesia fod ffibrau a malurion plastig ym mherfeddion chwarter ohonynt. Canfu astudiaeth arall fficroffibrau mewn dŵr yfed, cwrw, mêl, siwgr a halen bwrdd. Ar hyn o bryd mae prinder gwaith ymchwil i faint o'r gronynnau a gwenwynau hyn sy'n mynd i ddiets pobl a pha effeithiau y bydd y rhain yn eu



Shutterstock

cael ar iechyd. Fodd bynnag, mae'r Asiantaeth Ymchwiliadau Amgylcheddol yn dweud bod perygl amlwg y gallent achosi risg, ac mae nifer o gyrff anllywodraethol yn argymhell y dylid mabwysiadu ymagwedd ragofalus. Oherwydd ei bod mor hawdd i fywyd dyfrol eu llyncu, mae llawer yn barnu bod ffibrau microplastig yn fwy niweidiol i ecosystemau na malurion plastig mwy sy'n mynd i'n moroedd (fel poteli plastig). Mae llawer yn nodi'r eironi bod poteli plastig, sydd yn aml yn cael eu hailgylchu i wneud siacedi fflis, yn diweddu ar ffurf sydd o bosibl yn fwy niweidiol i'r amgylchedd.

Mae cwmnïau dillad awyr agored a hamdden yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau synthetig i ddatblygu dillad 'perfformiad', ac mae'n bosibl bod dyfodiad diwydiant 'ffasiwn cyflym' sy'n darparu llawer o ddillad synthetig rhad hefyd yn cyfrannu at barhauster

microffibrau yn yr amgylchedd. Rhwng 2009 a 2013, cynyddodd y dillad a thecstilau synthetig a ddefnyddiwyd yn y byd o 35.8 miliwn o dunelli i 55 miliwn o dunelli.

Beth ellir ei wneud i atal y broblem?

Ar ôl iddynt gyrraedd yr amgylchedd morol, byddai unrhyw ymgais i gael gwared ar ficroffibrau yn gostus o ran amser, llafur ac arian, felly mae gwaith atal yn hollbwysig. Mae gosod hidlyddion mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn un ffordd o hidlo allan ffibrau microplastig. Fodd bynnag, oherwydd bod microffibrau'n mynd i slwtsh carthion yn y broses trin mae'n debyg y byddai microffibrau'n dal i fynd i'r amgylchedd ehangach ar ôl y dull hidlo hwn. Oherwydd cost fawr gwella'r gweithfeydd hyn, mae'n bosibl na fydd hon yn ffordd realistig o fynd i'r afael â llygredd microffibrau yn y tymor byr.



Shutterstock

Fodd bynnag, yn ei ymchwiliad, argymhellodd y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol y dylai'r llywodraeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd weithio gyda chwmnïau dŵr i asesu ymarferoldeb monitro, ac yn y pen draw lleihau, nifer y gollyngiadau microplastig o weithfeydd trin dŵr gwastraff.

Oherwydd ei bod yn gostus ac yn anodd gwella gweithfeydd trin dŵr, bernir yn gyffredinol mai ymdrin â hwy yn y tarddiad yw'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau nifer y microffibrau sy'n mynd i'r amgylchedd. Gosod hidlyddion ar beiriannau golchi newydd ac ôl-ffitio hidlyddion ar hen beiriannau golchi yw un opsiwn i fynd i'r afael â'r broblem. Fodd bynnag, pwysleisiodd adroddiad a ariannwyd gan y cwmni dillad *Patagonia* bwysigrwydd gwaredu'r ffibrau sy'n cael eu hidlo yn gywir er mwyn eu hatal rhag mynd i'r amgylchedd ehangach ar ôl eu hidlo. Mae'r prosiect cadwraeth forol, Plastic Soup Foundation, sydd â'i bencadlys yn Amsterdam, yn credu y byddai dillad o ansawdd gwell neu ffabrigau â haen i atal colli ffibrau yn gallu helpu. Gallai

'pêl nano' i'w defnyddio yn y peiriant golchi i ddenu a dal plastig hefyd fod yn opsiwn.



Shutterstock

Mae prosiect MERMAIDS, a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd, wedi cael cyllid i ymchwilio i ffyrdd y gellir lleihau llygredd microffibrau trwy ddefnyddio technolegau sy'n bodoli eisoes. Mae'n cynnwys edrych ar driniaethau i decstilau a ffyrdd o olchi ffabrigau sy'n lleihau maint y microffibrau a gollir.

Ymagwedd y llywodraeth.

Ym mis Tachwedd ymatebodd llywodraeth y DU i ymchwiliad y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol. Dywedodd y byddai'r Prif Swyddog Meddygol yn adolygu effeithiau microplastigau ar iechyd, ac y byddai'n cyhoeddi adroddiad ar niwed posibl microplastigau i'r amgylchedd morol. Mae Defra, Asiantaeth yr Amgylchedd, y diwydiant dŵr ac academyddion hefyd yn edrych ar rôl trin dŵr gwastraff wrth i ficroplastigau gael eu rhyddhau i'r amgylchedd. Cynigir y dylai'r diwydiant dŵr dreialu samplu am ficroplastigau yn ystod 2017. Byddai canlyniadau'r rhaglen ymchwilio hon yn bwydo i benderfyniadau ynghylch beth i'w wneud nesaf.

Mae'r llywodraeth hefyd wedi ymrwymo i wahardd **pelî** micro - math o ficroplastig a geir yn aml mewn cosmetigau a phethau ymolchi (ond sy'n llawer llai cyffredin na ffibrau microplastig). Mae'r llywodraeth wedi newid ei ymagwedd yma, gan ei bod wedi cefnogi cael gwared arnynt yn wirfoddol o'r blaen.

Sut allai SyM weithio ar y mater hwn pe câi ei basio?

Bydd cynllun ymgyrchu llawn yn cael ei ddatblygu gan FfCSyM os caiff y cynnig ei basio, gan gymryd i ystyriaeth ddatblygiadau ers hynny. Ond i ddarparu gwybodaeth ar gyfer eich trafodaethau, dyma rai ffyrdd y gallai SyM ystyried gweithio ar y mater hwn pe câi ei basio.

Ar lefel genedlaethol gallai FfCSyM weithio gydag elusennau amgylcheddol i ddod â mater sydd ar hyn o bryd yn weddol anadnabyddus i'r brif ffrwd. Byddai gwell ymwybyddiaeth o'r mater ymhlith y cyhoedd a gwleidyddion yn darparu sylfaen dda i FfCSyM bwyso ar y llywodraeth, byd diwydiant a'r Cynghorau Ymchwil i neilltuo cyllid i ymchwilio i'r broblem a datblygu atebion. Byddai galw am osod systemau hidlo gwell mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff a chymhellion i brynwyr fuddsoddi mewn technoleg (lle mae'n bodoli) sy'n lleihau'r broblem yn gallu bod yn amcanion tymor hirach.

Ar lefelau rhanbarthol a lleol gallai Ffederasiynau a Sefydliadau ddefnyddio eu pŵer ar y cyd fel prynwyr i geisio cael mwy o weithredu ar y mater gan wneuthurwyr dillad a pheiriannau golchi. Gallent bwysleisio'r ffaith bod prynwyr, ar ôl cael y wybodaeth a dod i wybod am faint y broblem, yn fodlon ac yn gallu sicrhau yr eir i'r afael â microffibrau yn y tarddiad.

Dadleuon dros y cynnig.

- Mae'r cynnig hwn yn gyson â phryder hirsefydlog SyM ynghylch amgylcheddau morol cynaliadwy a thraddodiad yr aelodau o weithredu ar faterion ar lefel y prynwr a'r aelwyd.
- Mae hwn yn fater nad oes dealltwriaeth gyffredin ohono na chyhoedduswydd helaeth iddo, ac yn un y mae Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Senedd y DU wedi argymhell gweithredu pendant arno fel rhan o'i ymchwiliad i microplastigau. Gallai SyM helpu i hoelio sylw ar y mater ac annog y llywodraeth a byd diwydiant i roi blaenoriaeth iddo.



Shutterstock

Dadleuon yn erbyn y cynnig.

- Mae'n ddyddiau cynnar ar y gwaith ymchwil i'r maes hwn – ydyn ni'n gwybod digon am y mater i weithredu?
- Mae hon yn broblem enfawr a byddai angen cyfraniadau gan nifer o randdeiliaid, gan gynnwys ymrwymiad gan brynwyr. Gallai hefyd fod yn gostus iawn. A oes modd ei gyflawni, ac a all SyM wneud gwahaniaeth?

Mwy o wybodaeth

Sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol: (mae'r manylion cyswllt hyn er gwybodaeth yn unig – ni allant ddarparu siaradwyr):

- Y Gymdeithas Cadwraeth Forol: www.mcsuk.org/
- Prosiect MERMAIDS: <http://life-mermaids.eu/en/>
- Plastic Soup Foundation: www.plasticsoupfoundation.org/en/

Clipiau fideo ar y mater:

Mae prosiect The Story of Stuff wedi cynhyrchu'r clip fideo hwn sy'n rhoi trosolwg o broblem microffibrau:

<http://storyofstuff.org/movies/story-of-microfibers/>

Manylion cyswllt yr Adran Materion Cyhoeddus

Mary Roberts 020 7371 9300 est. 243

E-bost: m.roberts@nfwi.org.uk

Post: National Federation of Women's Institutes, 104 New Kings Road, London SW6 4LY